Ystyried Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Hugh Irving.

‘Mae Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i ymgynghori ag aelodau a’r cyhoedd ar weithredu’r cynigion terfyn cyflymder rhagosodedig 20 m.y.a. ac mae swyddogion yn paratoi adroddiad i aelodau ar y fethodoleg ynghylch sut y gwnaed y penderfyniad i enwebu pum ffordd yn unig ledled Sir Ddinbych i’w heithrio. Yn benodol, sut yr hysbyswyd y cyhoedd y gellid gwneud ceisiadau am eithriad.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau y bydd yn monitro'n agos ac yn rhoi gwybod i aelodau am yr effaith y mae'r cynigion yn ei chael ar amseroedd ymateb yr Heddlu a'r gwasanaethau brys, amseroedd galw diffoddwyr tân wrth gefn a llif traffig cyffredinol.

Bod y Cyngor yn cadarnhau y bydd yn ymgysylltu ag Aelodau ar y pryderon hyn drwy'r Grwpiau Ardal Aelodau a'r broses Graffu a bod ceisiadau am eithriadau pellach neu ystyried unrhyw faterion eraill ynghylch y terfynau newydd yn cael eu trin yn brydlon.’